Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs TGAU yn adeiladu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn Rhaglenni Astudio Cyfnod Allweddol 3. Bydd disgwyl i'r disgyblion arddangos eu gallu mewn:

- Defnyddio a chymhwyso mathemateg
- Rhif ac algebra
- Siap, gofod a mesurau
- Trin data

Cynigir dwy haen ar gyfer yr arholiad – yr haen uwch ar gyfer set 1 a set 2, tra y cynigir yr haen sylfaenol ar gyfer set 3 a set 4.

Sut fyddai'n dysgu?

Ceir tair gwers mathemateg yn wythnosol. Cyflwynir y gwaith drwy gyfrwng amrywiaeth o brofiadau dysgu, a hefyd defnyddir nifer o strategaethau addysgu yn y gwersi. Gosodir profion cyson ar y gwaith a gyflwynwyd.

Rhoddir pwyslais ar feithrin y gallu i ymresymu'n rhesymegol, ac i gyfathrebu eu dulliau ac atebion yn glir.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Bydd yr arholiad TGAU haen sylfaenol yn cael ei asesu drwy dri papur ysgrifenedig. Gellir sefyll y gwahanol unedau ar wahanol adegau yn ystod y ddwy flynedd.

Bydd yr arholiad TGAU haen uwch yn cael ei asesu drwy ddau bapur ysgrifenedig i'w sefyll ar ddiwedd y cwrs.

Ar y ddwy haen ni chaniateir defnyddio cyfrifannell ar un papur tra fod angen cyfrifiannell ar gyfer y papurau eraill.

Bydd hyd y papurau yn amrywio rhwng 1¼ awr a 2 awr.

Cofiwch!

Fe fydd y cwrs yn annog y disgyblion i feithrin agwedd bositif tuag at Fathemateg, gan gynnwys hyder, mwynhad a dyfalbarhad.

Disgwylir i ddisgyblion berchen cyfrifanell addas ar gyfer y cwrs TGAU – gellir eu prynnu am bris gostyngol gan yr Adran Fathemateg.

TGAU Mathemateg

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mr. Medwyn Williams

Ysgol Eifionydd
Porthmadog